Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19): 17 i 23 Hydref 2020

Dadansoddiad o gyfran y bobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 ar gyfer 17 i 23 Hydref 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 Hydref 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 30 Hydref 2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-17-i-23-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyfran y bobl yng Nghymru a oedd â COVID-19

Gwrthgyrff

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

Nod Arolwg Heintiadau COVID-19 yw amcangyfrif:

- faint o bobl sydd â’r haint dros gyfnod penodol
- faint o achosion newydd sy'n digwydd dros gyfnod penodol
- faint o bobl sydd â gwrthgyrff i COVID-19

Bydd yr arolwg yn helpu i olrhain lefelau heintio a throsglwyddo COVID-19 ymhlith pobl mewn preswylfeydd preifat, sef y boblogaeth gymunedol.

# Cyfran y bobl yng Nghymru a oedd â COVID-19


Ar gyfer yr wythnos rhwng 17 i ac 23 Hydref 2020, amcangyfrifir bod cyfartaledd o 0.86% o'r boblogaeth gymunedol wedi cael COVID-19 (cyfwng credadwy o 0.41% i 1.58%).

Mae hyn yn cyfateb i tua 1 o bob 120 o unigolion (cyfwng credadwy o 95%: 1 mewn 240 i 1 mewn 60), neu amcangyfrif o 26,100 o bobl i gyd (cyfwng credadwy: 12,600 i 47,900).

Mae’r gyfradd wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gan fod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar nifer gymharol isel o brofion positif, mae cryn ansicrwydd a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-17-i-23-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 1: Amcangyfrif o'r ganran o boblogaeth Cymru sydd wedi profi'n bositif am y coronafeirws (COVID-19) drwy swabiau trwyn a gwddf ers 12 Medi 2020**




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau COVID-19, ONS
Mae'r llinell las a'r graddliwio yn cynrychioli'r duedd wedi'i modelu a'r cyfyngau credadwy yn seiliedig ar y data diweddaraf. Mae'r amcangyfrifon pwyntiau a'r bariau gwallau yn amcangyfrifon swyddogol a gyhoeddwyd ar y pryd.

# Gwrthgyrff


Ym mis Medi, cafodd 4.2% (cyfwng hyder o 95%: 2.1% i 7.5%) o bobl 16 oed a hŷn ganlyniad prawf positif am wrthgyrff coronafeirws (COVID-19). Mae'r amcangyfrif wedi'i bwysoli er mwyn iddo fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyfan, ac mae'n cyfateb i oddeutu 1 o bob 24 person (cyfwng hyder o 95%: 1 o bob 48, i 1 o bob 13), neu oddeutu 107,000 o unigolion i gyd (cyfwng hyder o 95%: 53,000 i 189,000).

Dros gyfnod llawn yr arolwg, rhwng mis Gorffennaf a 19 Hydref, cafodd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-17-i-23-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

amcangyfrif o 3.75% (cyfwng hyder o 95%: 2.1% i 6.1%) ganlyniad prawf positif am wrthgyrff COVID-19. Mae Siart 2 yn rhoi amcangyfrif misol o fis Gorffennaf ymlaen, ond gan fod y cyfyngau hyder yn eang, nid oes tystiolaeth o duedd dros amser ar hyn o bryd. Gall lefelau gwrthgyrff yn y gwaed ddirywio dros amser, sy'n golygu y gall rhai pobl sydd wedi cael COVID-19 yn y gorffennol gael canlyniad prawf negatif. Oherwydd hyn, dylid ystyried y ffigurau hyn fel amcangyfrif o gyffredinrwydd gwrthgyrff bob mis ac nid fel ffigurau cronnol.

## Siart 2: Amcangyfrif o'r ganran o boblogaeth Cymru sydd wedi cael canlyniad prawf positif am wrthgyrff coronafeirws (COVID-19) rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Medi 2020




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau COVID-19, ONS

Mae'r bariau glas yn rhoi amcangyfrifon pwyntiau ac mae'r linellau llorweddol yn dangos y cyfyngau hyder 95%.

Un ffordd y mae'r corff yn ymladd yn erbyn heintiau fel COVID-19 yw drwy gynhyrchu gronynnau bach yn y gwaed o'r enw gwrthgyrff. Mae'n cymryd rhwng pythefnos a thair wythnos i'r corff gynhyrchu digon o wrthgyrff i ymladd yn erbyn yr haint.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-17-i-23-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rydym yn mesur presenoldeb gwrthgyrff er mwyn deall pwy sydd wedi cael COVID-19 yn y gorffennol, er, nid oes neb yn gwybod yn iawn pa mor hir y mae gwrthgyrff yn aros ar lefelau canfyddadwy mewn gwaed. Nid oes neb yn gwybod ychwaith sut mae cael gwrthgyrff canfyddadwy, nawr neu ar unrhyw adeg yn y gorffennol, yn effeithio ar y siawns o gael COVID-19 eto.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae’r canlyniadau wedi’u seilio ar swabiau trwyn a gwddf a ddarparwyd gan gyfranogwyr i’r astudiaeth. Yn ogystal ag edrych ar nifer yr achosion yn gyffredinol, defnyddir yr arolwg i edrych ar nodweddion y rhai sy'n profi'n bositif am COVID-19 a gweld i ba raddau y mae pobl sydd wedi’u heintio yn cael symptomau.

Dechreuodd y gwaith maes yng Nghymru ar 29 Mehefin 2020. Mae'n bwysig nodi bod cryn dipyn o ansicrwydd o ran yr amcangyfrifon. Y rheswm am hyn yw, er gwaethaf sampl fawr o gyfranogwyr, bod nifer yr achosion positif a nodwyd yn fach. Rhoddir yr amcangyfrifon gyda chyfyngau credadwy o 95% i ddangos yr ystod y gallwn fod yn hyderus bod y gwir ffigur wedi’i gynnwys ynddi.

Mae'r canlyniadau ar gyfer cartrefi preifat yn unig ac nid ydynt yn cynnwys pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal neu leoliadau sefydliadol eraill.

Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi **bwletinau ystadegol wythnosol a thablau cyfeirio**, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer Cymru a Lloegr, ar ei gwefan.

Mae’r amcangyfrifon wedi’u seilio ar fodelu ystadegol. Mae gwaith modelu'n cael ei wneud o'r newydd bob wythnos gan ddefnyddio'r data am y 6 wythnos ddiwethaf. Mae'r model yn gweithio drwy hwyluso’r gyfres i ddeall y duedd ac mae'n cael ei diwygio bob wythnos i gynnwys canlyniadau profion newydd. Mae hyn yn golygu y gallai'r amcangyfrif diweddaraf am gyfnod cynharach fod yn wahanol i'r amcangyfrif swyddogol a gynhyrchwyd ar y pryd. Dengys Siart 1 y duedd ddiweddaraf wedi'i modelu a'r amcangyfrifon swyddogol a gyhoeddwyd ar y pryd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-17-i-23-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Nid yw’r samplau o’r arolwg hwn yn ddigon mawr eto i gefnogi dadansoddiad mwy manwl na’r hyn a ddarperir yma. Mae’r gwaith maes yn cael ei gynyddu gyda’r bwriad o sicrhau tua 9 mil o gyfranogwyr bob pythefnos erbyn canol mis Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu gwaith dadansoddi mwy manwl, a allai gynnwys dadansoddi nifer yr heintiau newydd dros gyfnod o amser a dadansoddi nodweddion pobl sy’n cael canlyniadau prawf positif. Bydd y math o ddadansoddiad a fydd yn bosibl hefyd yn dibynnu ar nifer sylfaenol yr achosion o’r feirws, gyda chyfraddau heintio uwch yn caniatáu mwy o waith dadansoddi a chyfraddau heintio llai yn caniatáu llai.

Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gael ar **wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Senedd. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai’r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu’r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â’u hasesiadau llesiant a’u cynlluniau llesiant lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-17-i-23-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Ryan Pike
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 184/2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-17-i-23-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Arolwg heintiadau coronafeirws (COVID-19): 17 i 23 Hydref 2020** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-17-i-23-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-17-i-23-hydref-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.